

COFFADWRIAETH

AM

SARAH, MERCH HENAF MR. (A MRS.) JONES,
 Timber Merchant, Conwy.

“Pa ham yr wylwch?—ni bu farw yr eneth, cithr cysgu y mae.”

Ar fore Sabbath clir,
 A'r haul yn euro 'n tir,
 A'r blodau 'n llawn ;
 Yn mysg y dirfawr lu,
 Ddangosent liwiau 'r bru,
 Un rhosyn pendant fu,
 Yn ddysglaer iawn.

Dysgwyliai yr holl fyd,
 Oddi wrth ei ddengar bryd,
 Gysuron mawr,
 Wrth bob gobeithiol iaith,
 Mewn defnyddioldeb maith,
 Gyndeithas lawer gwaith,
 Wrth deithio 'r llawr.

Ond cyn machludo haul,
 Heb of un math o draul,
 Do'i awel lem,
 O'r gogledd oeraf hin,
 Gynhyrfai 'storum flin,
 Nes deifio 'i ddail a'i min—
 Newidiai 'i drem !

Parhâi yn farug oer,
 Fel noswaith rhewlyd-loer,
 Dan gysgod hwyr ;
 Trwy nychlyd hinsawdd byd,
 Holl degwech glân ei bryd,
 A'i flodau 'n grin i gyd,
 A gwypai 'n llwyr.

Ei yngeleddwyr ef,
 Drwy 'r brofedigaeth gref,
 Alarai 'n ddwys ;
 Ac yn y dagrau prudd,
 A olchâi 'n gwelw rudd,
 Adgofio wnaent bob dydd,
 Ei wenau glwys.

Ond erbyn gwel'd drachefn,
 Nid ydoedd hyn ond trefn
 Y GARDWR MAWR,
 I symmud impyn gwan
 Fry, i gynhesach man—
 Llewyrchai ar y lan,
 Fel bore wawr.

Glan-don, Mai Sfed, 1855.

Ar bren y bywyd fry,
 Uwchlaw pob tralod sy
 'N byd yn loes,
 Ymledai 'i flagur glân,
 Fil harddach nag o'r blaen,
 A'i ffrwythau a barhân
 Dragwyddol oes !

Dealla pawb o'r bron
 Pwy oedd y rhosyn llon,
 Ond Sarah bach,
 Ddewisai PRYNWR dyn,
 Gymmeryd ato 'i hum,
 O bob daiarol wŷn,
 Yn berfaiath iach !

Yn awr !—ei thad a'i mam,
 Na thybïwch y gwna'i gam
 Mewn dim â chwi ;
 Cyflawnwyd i barhau,
 Holl ddyben bywyd brau,
 Yn mhedair blynedd glau
 Ei heinioes hi !

Mae 'n anhawdd gwel 'd yn awr
 Resymau 'r orsedd fawr
 Yn ddigon clir,
 Mai teg oedd estyn dawn,
 A'i galw 'n ol brydnawn ;
 Ond gweled eto gawn,
 Mai dyma 'r gwir.

Cyrhaeddodd ben y daith,
 'N ol gorphen dydd ei gwaith,
 Mewn cyflawn oed ;
 Mae 'r nefoedd heddyw i chwi,
 Drwy ei mynediad hi,
 Yn llawer mwy ei bri
 Nag fu erioed.

Rhydd adgyfodiad CRIST,
 Fel anfaeledig dyst,
 Oleuaf ddôr,
 I wel'd eich cartref fry,
 Yn anllygredig sy
 A chwmmi 'ch geneth gu,
 Yn mynwes IOR.

GWALCHMAL.